NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ymasiad lwynol-sacrol rhyng-gorff ardraws ar gyfer poen yng ngwaelod y cefn

25 Gorffennaf 2018

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer poen yng ngwaelod y cefn ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Wrth i berson heneiddio, gall y disgiau rhwng esgyrn y cefn (cymalau) ddirywio. Gall hyn achosi poen ac anabledd difrifol, ac efallai y bydd angen llawdriniaeth. Gwneir y driniaeth hon drwy doriad bach ar waelod yr asgwrn cefn. Caiff y ddisg sydd wedi cael niwed ei thynnu. Caiff mewnblaniad artiffisial a deunydd grafftiad asgwrn eu mewnosod i'r gofod disg sy'n weddill. Ei nod yw uno'r 2 gymal er mwyn atal y cymal poenus rhag symud.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3029-6